# 2016 Rhif (Cy. )

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") ac maent yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 ("Rheoliadau 1998").

Mae rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau 1998 yn rhagnodi dosbarthau ar anheddau at ddiben adran 12(4) o Ddeddf 1992. Pan fo dosbarth wedi ei ragnodi at ddiben adran 12(4), caiff awdurdod bilio yng Nghymru benderfynu nad yw disgownt y dreth gyngor yn gymwys o dan adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992 neu benderfynu ei leihau i ganran a bennir gan yr awdurdod bilio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r dosbarthau a ragnodir gan reoliad 4 (Dosbarth A) a rheoliad 5 (Dosbarth B). Mae'r diwygiadau'n addasu'r geiriad yn y dosbarthau hynny i egluro eu bod yn cynnwys anheddau lle nad oes preswylydd a bod yr anheddau wedi eu dodrefnu i raddau helaeth. Mae "resident" wedi ei ddiffinio yn adran 6(6) o Ddeddf 1992.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

DRAFT

# 2016 Rhif (Cy. )

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2016

*Gwnaed* ****2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* **** 2016*

*Yn dod i rym* ****2016*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 12(4), 113(1) ac 116(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2016 ac maent yn dod i rym ar [*mewnosoder y dyddiad*].

**Diwygio'r Rheoliadau**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (Dosbarth A)—

(a) yn lle paragraff (a) rhodder—

“(a) of which there is no resident(**4**);”;

(b) ym mharagraff (b), ar ôl “is” mewnosoder “substantially”.

(3) Yn rheoliad 5 (Dosbarth B)—

(a) yn lle paragraff (a) rhodder—

“(a) of which there is no resident;”;

(b) ym mharagraff (b), ar ôl “is” mewnosoder “substantially”.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

---

(**1**) 1992 p. 14.

(**2**) Trosglwddwyd y swyddogaethau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac fe'u breinir bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 1998/105.

(**4**) Ystyr “resident” mewn perthynas ag unrhyw annedd yw unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 oed ac y mae'r annedd yn unig neu'n brif breswylfa iddo (gweler adran 6(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).